Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd, Prifysgol Abertawe |
| **Teitl y Swydd:** | Nyrs Ymchwil Glinigol |
| **Adran/Pwnc:** | Cyfleuster Ymchwil Clinigol ar y Cyd |
| **Cyflog:** | Gradd 07 – £34,610 i £38,784 y flwyddyn (pro rata i weithwyr rhan-amser), ynghyd â buddion pensiwn Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS |
| **Oriau gwaith:** | 28 awr yr wythnos |
| **Nifer y swyddi:** | 2 |
| **Contract:** | Parhaol |
| **Lleoliad:** | Ysbyty Treforys ac ILS2 ym Mhrifysgol Abertawe |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Dan oruchwyliaeth, cydlynu gofal cleifion treial clinigol sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau.<br>2. Mynd i gyfarfodydd amlddisgyblaethol, clinigau priodol a meddygfeydd i sgrinio a recriwtio cleifion newydd.<br>3. Sicrhau y defnyddir proses ddiogel wrth roi meddyginiaethau/dyfeisiau didrwydded a thrwyddedig i drin cleifion yng nghyd-destun protocol y treial clinigol.<br>4. Glynu wrth y protocol, gan sicrhau bod holl dasgau penodol y treial – gan gynnwys tynnu samplau gwaed neu samplau eraill – yn cael eu cyflawni yn unol â'r amserlenni angenrheidiol, ynghyd â sicrhau bod y claf yn gymwys ac yn ddiogel.<br>5. Meddu ar hyfedredd mewn fflebotomi, casglu samplau eraill a sicrhau bod samplau biolegol cleifion yn cael eu trin, eu storio a'u cludo'n ddiogel.<br>6. Darparu cefnogaeth a gwybodaeth barhaus i'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr ynghylch treialon clinigol ar bob adeg.<br>7. Cadw data cywir a chryno.<br>8. Cadw cofnod o ddigwyddiadau niweidiol a hysbysu'r awdurdodau rheoleiddio a noddwyr amdanynt mewn da bryd, a monitro unrhyw ddigwyddiad niweidiol nes iddo gael ei ddatrys.<br>9. Monitro samplau gwaed/sgîl-effeithiau ac addasu meddyginiaeth fel y'i nodir yn y protocol, gan drafod ag uwch-nyrsys ymchwil a/neu'r ymchwilydd meddygol sy'n gyfrifol am y treial.<br>10. Darparu gofal parhaus i'r claf yn ystod y treial gyda chymorth uwch-aelodau'r tîm ymchwil.<br>11. Wrth gwblhau'r treial, cysylltu â'r tîm amlddisgyblaethol ynghylch meddyginiaeth/triniaeth ar gyfer y dyfodol er mwyn darparu'r gofal gorau posib.<br>12. Bod yn brif bwynt cyswllt i'r claf a'r teulu ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r treial.<br>13. Sicrhau bod y cyfarpar ymchwil sy'n cael ei ddefnyddio yn y treial yn cael ei gynnal a'i gadw a'i fod wedi cael ei brofi gan yr adran briodol cyn ei ddefnyddio. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 14. Darparu gofal o safon uchel o fewn tîm ymchwil aml-broffesiwn<br>15. Nodi cleifion addas, recriwtio ac adolygu cleifion, boed yng nghyd-destun cleifion allanol neu gleifion mewn ysbytai ac ymgymryd ag ymchwiliadau/gweithdrefnau clinigol penodol yn ôl cyfarwyddyd y protocol.<br>16. Atgyfnerthu canllawiau a pholisïau clinigol ar gyfer cynnal astudiaethau clinigol a sicrhau y glynir yn dynn wrth y protocolau ar bob adeg.<br>17. Rhwydweithio ar draws nifer o feysydd ymchwil, gan sicrhau y rhoddir y datblygiadau/ddeddfwriaeth ymchwil diweddaraf ar waith yn unol ag arfer gorau |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | |
|---|---|
| | 18. Gweithio yn yr holl feysydd dynodedig, dan oruchwyliaeth ac yn annibynnol<br>19. Cyflenwi ar gyfer y prosiect pan fo cyfnodau o salwch, absenoldeb a gwyliau blynyddol, a bod yn barod i weithio oriau anghymdeithasol yn ôl yr angen.<br>20. Hysbysu uwch-aelodau staff am unrhyw ddigwyddiadau anffodus neu niweidiol sy'n effeithio ar gleifion wrth gymryd rhan mewn treial clinigol.<br>21. Sicrhau bod data treial clinigol yn cael ei gwblhau'n gywir a'i ddiweddaru'n rheolaidd<br>22. Defnyddio'r rhwydwaith cyfrifiadurol ac adalw data perthnasol<br>23. Bod yn barod ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol posib gan y Bwrdd Iechyd, noddwyr neu awdurdodau rheoleiddio.<br>24. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>25. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>26. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o'r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>27. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>28. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol |
| | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | **<u>Meini Prawf Hanfodol:</u>**<br>**Gwerthoedd:**<br><br>• Tystiolaeth o gyfathrebu effeithiol a sgiliau rhyngbersonol ar bob lefel<br>• Sgiliau trefnu ardderchog a thystiolaeth o'r gallu i reoli eich llwyth gwaith eich hun<br>• Sgiliau gweinyddol a TGCh sy'n briodol i ofynion y prosiect<br>• Cynnal datblygiad proffesiynol a bod yn ymwybodol o faterion cyfredol ym maes nyrsio<br>• Y gallu i gyfathrebu'n ardderchog â staff meddygol a'r cyhoedd<br>• Y gallu i weithio'n annibynnol, dan oruchwyliaeth, ac fel rhan o dîm amlddisgyblaethol |

- Y gallu i weithio i lefel uchel o gywirdeb
- Y gallu i ddehongli samplau gwaed/canlyniadau ECG claf, etc, a gweithredu arnynt mewn modd sy'n ddiogel i'r claf
- Y gallu i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys sifftiau, dros y penwythnos a chyda'r hwyr
- Y gallu i weithio ym mhob uned sy'n gysylltiedig ag unedau ymchwil ar safleoedd byrddau iechyd neu safleoedd ategol
- Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol
- Y gallu i weithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau'r cwsmeriaid.
- Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol.

**Cymwysterau:**

- Hyrwyddo'r Uned Ymchwil Glinigol i adrannau eraill yn y Bwrdd Iechyd
- Bod yn adnodd i gydweithwyr mewn perthynas â threialon clinigol
- Sicrhau bod holl aelodau perthnasol y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu haddysgu a'u cefnogi yn ystod cyfnod y claf yn y treial clinigol, gyda chymorth uwch-aelodau staff.
- Rhoi gwybod i staff priodol am gynnydd treialon clinigol yn eu hadran
- Bod yn ymwybodol o'r erthyglau ymchwil diweddaraf, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i feysydd gwaith cyfredol. Cynnal eich cofnodion PREP a hyfforddiant personol eich hun
- Rhannu gwybodaeth am brofiad ymchwil rydych yn ei gael â'ch tîm eich hun.
- Mynd i gyfarfodydd cenedlaethol/rhyngwladol
- Darparu ymwybyddiaeth o dreialon clinigol ar draws eich meysydd gwaith presennol.
- Gweithio'n agos gyda'r nyrsys arweiniol/Rheolwr Nyrsys y Cyfleuster Ymchwil Glinigol ar y Cyd er mwyn darparu a chydlynu gwasanaeth treialon clinigol cynhwysfawr dan oruchwyliaeth.
- Bod yn gyfrifol am ddiweddaru gweithdrefnau gweithredu safonol prosiectau dan oruchwyliaeth uwch-aelodau staff.
- Sicrhau bod cytundeb moesegol, cytundeb ymchwil a datblygu, cytundeb yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a chytundeb treial clinigol ar waith cyn dechrau astudiaeth
- Cysylltu ag aelodau adrannau eraill i sicrhau y caiff y treial clinigol ei gydlynu'n ddiogel
- Hyrwyddo gwaith tîm effeithiol a helpu i reoli newid ym maes ymchwil.
- Sicrhau bod yr holl gyfarpar ymchwil yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, yn dilyn hyfforddiant penodol i'r protocol.

**Profiad:**

- Gradd a chymhwyster Nyrs Cyffredinol Cofrestredig, ynghyd â phrofiad ôl-gymhwyso digonol.
- Profiad diweddar o weithio mewn maes clinigol acíwt (tynnu gwaed/ECG, sbirometreg)

**Gwybodaeth a Sgiliau:**

- Gweithio a rhoi cymorth ar dreialon clinigol niferus yn ymwneud â chyflyrau clinigol amrywiol

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | |
|---|---|
| | • Cynorthwyo a nodi strategaethau i recriwtio cleifion ar gyfer treialon clinigol<br>• Sicrhau y glynir wrth brotocolau bob amser, yn unol â'r Gynhadledd Ryngwladol ar Gysondeb (ICH)/ Arfer Clinigol Da (GCP)<br>• Hwyluso'r ymchwilydd yn y broses cydsyniad ar sail gwybodaeth drwy sicrhau'r canlynol: Mae'r claf yn deall y broses cydsyniad ar sail gwybodaeth yn llwyr. Mae'r claf yn deall bod y cyfranogiad yn gwbl wirfoddol a gall dynnu ei ganiatâd yn ôl ar unrhyw adeg heb unrhyw niwed i'w ofal iechyd<br>Mae'r ffurflen gydsynio wedi'i chwblhau'n gywir, ac ni chaiff unrhyw weithdrefnau treialon eu cynnal nes bod y claf a'r ymchwilydd yn llofnodi'r ffurflen gydsynio gymeradwy gyfredol.<br>• Dynodi cleifion ar hap i dreialon clinigol yn unol â'r protocol.<br>• Gweithio gydag uwch-aelodau staff i ddiweddaru gweithdrefnau ar gyfer y portffolio treialon presennol a'u diwygio yn ôl cyfarwyddyd diwygiadau a gymeradwywyd.<br>• Rhoi cymorth i gydweithwyr yn eu habsenoldeb.<br>• Cyfrannu at baratoi adroddiadau, cyhoeddiadau a phosteri.<br>• Mynd i gyfarfodydd lleol, cenedlaethol neu ryngwladol yn ôl yr angen.<br><br>**<u>Meini Prawf Dymunol:</u>**<br><br>1. Hyfforddiant ICH/GCP cydnabyddedig. Gwybodaeth am ymchwil glinigol yr ICH/GCP |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: lucy.barlow@wales.nhs.uk<br><br>**Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystysgrif foddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau** |

Athena SWAN Silver Award — ECU Gender Charter

Stonewall Cymru — Diversity Champion

HR Excellence in Research